



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Ei Gwneud yn Orfodol Cofrestru Gweithwyr Gofal Cartref

Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol  
(Cymru) 2016 –

- i'w gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, ac mewn gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, o 1 Hydref 2022 a gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyflogi a/neu i gymryd ymlaen o dan contract ar gyfer gwasanaethau unigolion sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unig.

Dyddiad cyhoeddi: 20 Rhagfyr 2021  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Chwefror 2022

**Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn benodol ei gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr a gyflogir neu a gymerir ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau mewn gwasanaethau cartrefi gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) ac mewn canolfannau preswyl i deuluoedd o 1 Hydref 2022.

**Sut i ymateb** Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon, a hynny erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb i:

Y Gangen Polisi Gweithlu  
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Fel arall, gallwch ddychwelyd eich ffurflen wedi'i chwblhau atom, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost i:  
[RISCAct2016@llyw.cymru](mailto:RISCAct2016@llyw.cymru) neu [RISCAct2016@gov.wales](mailto:RISCAct2016@gov.wales).

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents>

Cam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - agweddau yn ymwneud â'r gweithlu  
<http-https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/170612consultation-documentcy.pdf>

Cam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - agweddau yn ymwneud â'r gweithlu – crynodeb o'r ymatebion  
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cam-2-y-broses-o-roi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar>

Gweddnewid gofal yn yr 21ain ganrif – Ymgynghoriad Gofal Cymdeithasol Cymru ar gofrestru  
<https://gofalcymdeithasol.cymru/ymgyngoriadau/gweddnewid-gofal-yn-yr-21ain-ganrif>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/1235/contents/made/welsh>

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017  
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/contents/made>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/192/contents/made>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2020

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2020/286/contents/made>

**Manylion  
cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Gweler uchod.

E-bost: [RISCAct2016@llyw.cymru](mailto:RISCAct2016@llyw.cymru)  
[RISCAct2016@gov.wales](mailto:RISCAct2016@gov.wales)

Ffôn: 03000 253228

**Mae'r  
ddogfen  
hon ar gael  
yn  
Saesneg  
hefyd**

<https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016>

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch chyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ  
e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

# Ymgynghoriad ar weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – Cofrestru'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

## 1. Y Cefndir

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 2015 Ionawr 2016. Mae'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys sefydlu rheoleidiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Cyflwynwyd y broses o weithredu Deddf 2016 mewn tri cham:

- **Cam 1 (2016/17)** – roedd y cam hwn yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r system ofynnol newydd i reoleiddio'r gweithlu a daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygodd GCC y rheolau a'r gweithdrefnau i lywodraethu'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu, ac mae wedi'i gweithredu ers 3 Ebrill 2017.
- **Cam 2 (2017/18)** - roedd y cam hwn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwyllir gan ddarparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol mewn gwasanaethau gofal cartref a gwasanaethau gofal preswyl i oedolion, lleoliadau gofal preswyl i blant, llety diogel i blant a Gwasanaethau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd. Roedd hefyd yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r gweithlu, o ran neilltuo amser teithio a gofal, estyn y gofrestr i weithwyr gofal cartref a chyfyngu ar gontractau dim oriau. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2018.
- **Cam 3 (2018/19)** – roedd y cam hwn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwyllir gan ddarparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol o fewn Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu; Gwasanaethau Maethu; Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Cysylltu Bywydau); a Gwasanaethau Eiriolaeth. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2019.

### Cofrestru'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Dechreuodd y broses o gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol gyda Deddf Safonau Gofal 2000 (Deddf 2000), a oedd yn ei gwneud yn orfodol i weithwyr cymdeithasol, rheolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion a rheolwyr cartrefi gofal preswyl plant gael eu cofrestru'n broffesiynol gyda rheoleidiwr y gweithlu ar y pryd, Cyngor Gofal Cymru. Yn 2013, deddfodd Llywodraeth Cymru hefyd i'w gwneud yn orfodol cofrestru rheolwyr gwasanaethau cymorth cartref hefyd.

Wrth i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) fynd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015, rhoddwyd ystyriaeth i gofrestru grwpiau eraill yn y

gweithlu gofal cymdeithasol. Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud sawl datganiad<sup>1</sup> ynghylch ei chynlluniau ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion.

Ym mis Ebrill 2018, daeth rheoliadau i rym a oedd yn caniatáu i GCC agor cofrestr y gweithlu ar sail wirfoddol i weithwyr gofal cartref, cyn i'r cofrestru gorfodol ddod i rym yn 2020. Roedd hyn yn gyfnod o ddwy flynedd i'r sector baratoi ar gyfer cofrestru. Fel rhan o'r paratodau hyn, cynhaliodd GCC gyfres o weithdai gyda chyflogwyr a gweithwyr ledled Cymru i hwyluso'r broses o gofrestru ac erbyn mis Ebrill 2020 roedd 22,000 o weithwyr gofal cartref wedi cofrestru â GCC.

Ym mis Ebrill 2020, rhoddwyd set arall o reoliadau ar waith i agor cofrestr y gweithlu, ar sail wirfoddol, i weithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau cartrefi gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer oedolion ac mewn canolfannau preswyl i deuluoedd. Byddai hyn yn agor y gofrestr i amcangyfrif pellach o 20,000 o weithwyr gofal cymdeithasol yn y maes hwn, ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Fel rhan o'r ymarfer hwn, byddai GCC hefyd yn defnyddio rhaglen debyg o ymgysylltu a chymorth i weithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd o fis Ebrill 2020.

Fodd bynnag, ers mis Ebrill 2020 mae'r pandemig wedi effeithio ar allu'r sector i baratoi ar gyfer cofrestru gorfodol i'r grŵp hwn o weithwyr. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi estyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru gorfodol am chwe mis, hyd at fis Hydref 2022<sup>2</sup>.

## **2. Manteision cofrestru**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i godi proffil gwaith gofal cymdeithasol fel proffesiwn ac i weithio gyda'r sector i barhau i godi safonau ymarfer ac ymddygiad.

Gall cofrestru helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu. Gall pobl fod yn hyderus bod disgwyl i weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig ddilyn Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol y cytunwyd arno. Mae'n helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddangos bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol ac mae'n rhoi mwy o fynediad i weithwyr at yr ystod o offer hyfforddi a datblygu drwy GCC. Mae rhagor o wybodaeth am fanteision cofrestru ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

## **3. Yr ymgynghoriad hwn**

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y amlinellu'r cynigion polisi i reoleiddio mwy o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Rydym wedi ymgynghori â'r sector ar ein cynigion ar gyfer cynyddu'r gofrestr am nifer o flynyddoedd, gan gynnwys yn ystod hynt y Bil Rheoleiddio

---

<sup>1</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s45151/15%20October%202015.pdf> - llinellau 125 a 126.  
<https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/gwybodaeth-am-gofnod-y-trafodion/?meetingid=3488&assembly=4&c=Record+of+Proceedings>

<sup>2</sup> <https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddid/disgwylir-cofrestriad-gweithwyr-cartrefi-gofal-i-oedolion-erbyn-hydref-2022>

ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac wrth baratoi is-ddeddfwriaeth ddilynol. Roedd cefnogaeth gref i gynnwys gweithwyr gofal cartref, gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, er mwyn gwella diogelu. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i ystyried a ddylai fod yn ofynnol i rannau eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol gofrestru hefyd a bydd y dystiolaeth ar gyfer estyniadau pellach i'r gofrestr yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd gofrestru. Credwn fod y ddadl hon wedi'i gwneud a bod y cyfeiriad polisi wedi'i gytuno. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i gael barn ynghylch a yw'r rheoliadau drafft cysylltiedig yn glir ac yn gryno er mwyn cyflawni ein cynigion.

Nid ydym yn ymgynghori ar fanylion y broses y bydd angen i weithwyr ei dilyn er mwyn cofrestru, nac ar y ffioedd cofrestru. Mae'r rhain yn faterion i reoleiddiwr y gweithlu benderfynu arnynt drwy ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol.

Mae GCC wedi ailadrodd fformat cofrestru gweithwyr gofal cartref ar gyfer yr ymarfer hwn er mwyn sicrhau ymarfer llyfn a llwyddiannus pellach. Mae manylion y broses hon i'w gweld yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cofrestru-gweithiwr-cartref-gofal-i-oedolion>. Mae GCC wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar gais cyflogwyr ac, oherwydd effaith y pandemig, crëwyd "cymhorthfa ddigidol" i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr drwy'r broses gofrestru. Bydd deunyddiau newydd, gan gynnwys astudiaethau achos a fideos ffeithlun sy'n esbonio'r broses, pecyn croeso ar ffurf digidol a phapur, ar gael erbyn diwedd mis Tachwedd.

Mae GCC wedi adnewyddu ei strategaeth gyfathrebu a'i becyn cymorth i gynorthwyo cyflogwyr a'u gweithwyr drwy'r broses gofrestru. O ystyried cyrhaeddiad ac argaeledd technoleg ddigidol, gallai hyn annog mwy o ymgysylltu, gan fod hyn yn osgoi'r angen i ddod ynghyd mewn grwpiau mawr neu deithio i leoliadau penodol. Os gofynnir am rai sesiynau wyneb yn wyneb, bydd angen i'r rhain fod yn ymwybodol o'r cyngor presennol o ran y pandemig a'r angen am fesurau priodol i gadw pellter cymdeithasol.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio ein hystyriaeth o'r rheoliadau terfynol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Ein bwriad yw dadansoddi eich ymatebion dros y gaeaf ac ystyried unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen cyn gwneud a gosod y rheoliadau erbyn canol/diwedd Mai 2022 fel eu bod yn dod i rym o fis Hydref 2022.

Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal seminar rhithwir ar 12 Ionawr 2022 i ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi cyfle iddynt drafod y cynigion a gofyn cwestiynau i swyddogion.

Amlinellir y cynigion cyffredinol yn gryno isod:

#### **4. Y cynigion**

**Rydym yn bwriadu gwneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cyflogi, neu'n sy'n cymryd ymlaen o dan gontract, unigolion i wasanaethu fel gweithwyr gofal cartref neu weithwyr mewn canolfannau preswyl i oedolion gyflogi gweithwyr sydd wedi'u cofrestru â GCC**

**yn unig o 2022. Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i bob cyflogai neu weithiwr gael cyfnod o 6 mis i roi'r cyfle iddynt gofrestru â GCC. Bydd y cyfnod yn dechrau o'r dyddiad y cânt eu cyflogi neu eu cymryd ymlaen o dan gontract am y tro cyntaf ar gyfer gwasanaethau. [Atodiad A]**

**Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd yn unig.**

Bydd y ddeddfwriaeth ddrafft:

- yn gosod gofyniad ar ddarparwyr y gwasanaethau hyn i sicrhau bod cyflogeion sy'n darparu gofal a chymorth i unrhyw berson o fewn y gwasanaeth wedi'u cofrestru â GCC o fewn chwe mis i ddechrau eu cyflogaeth; ac
- yn gosod gofyniad ar ddarparwyr y gwasanaethau hyn i sicrhau bod unrhyw unigolion sy'n ymwneud â chontract ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth i unrhyw berson o fewn y gwasanaeth wedi'u cofrestru â GCC o fewn chwe mis i'r dyddiad y maent cael eu cymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y cyfnod hwn o chwe mis gael ei estyn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – bydd hyn hefyd yn berthnasol i bob grŵp y mae gofyn iddynt gofrestru â GCC – fel y gwelwyd yn ystod y pandemig COVID-19 – gweler y cyhoeddiadau isod: <https://arolygiaethgofal.cymru/coronafeirws-covid-19-cwestiynau-cyffredin>.

Os na fydd gwasanaethau'n bodloni gofynion y rheoliadau newydd hyn, bydd AGC yn gweithredu yn unol â'i bolisi 'Sicrhau Gwelliant a Gorfodi', sy'n cynnwys dull fesul cam o sicrhau cynnydd. Bydd unrhyw gamau a gymerir yn gymesur â'r amgylchiadau, y canlyniadau a'r risg i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gallu'r darparwr i ymateb. Bydd darparwyr sy'n methu â chydymffurfio â rheoliadau yn gyson yn wynebu camau gorfodi cynyddol. Os yw'r methiannau'n digwydd oherwydd safonau gwael gan y gweithlu, bydd AGC yn gweithio gyda GCC i nodi'r materion hyn a'u trosglwyddo i GCC i ymchwilio iddynt drwy ei broses "Addasrwydd i Ymarfer.

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ('Rheoliadau 2017'), er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd gyflogi a/neu gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau unigolion sydd wedi'u cofrestru â GCC yn unig o 1 Hydref 2022. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaethau sydd eisoes ar waith ar gyfer cyflogi rheolwyr cartrefi gofal i oedolion; rheolwyr gofal cartref; rheolwyr a gweithwyr cartrefi gofal plant; ac yn fwy diweddar, gweithwyr gofal cartref.

Ni fydd y rheoliadau hyn yn estyn y gofyniad cofrestru hwn i gynnwys gwirfoddolwyr; na'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth ar sail unigol heb gynnwys unrhyw asiantaeth gyflogaeth neu fusnes cyflogaeth (h.y. Cynorthwyr Personol). Er y gallai gwirfoddoli fod y cam cyntaf i mewn i yrfa, yn enwedig mewn cartrefi gofal neu ofal cartref, gallai'r



gofyniad i gofrestru a gweithio tuag at gymhwyster er mwyn gwirfoddoli ac ennill profiad hefyd fod yn rhwystr diangen i'r llwybr gyrfa hwn. O ran Cynorthwyr Personol, rydym yn ymwybodol nad yw pob rôl Cynorthwydd Personol yn cynnwys darparu gofal, fel y'i diffinnir gan Ddeddf 2016, ond y gallant ddarparu ystod o gymorth sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a chanlyniadau i'r unigolyn sy'n eu cyflogi. Felly, byddai angen gwneud rhagor o waith i sicrhau na fyddai unrhyw ofyniad cofrestru o'r fath yn cael unrhyw effeithiau anfwriadol ar unigolion sy'n cyflogi Cynorthwyr Personol neu sy'n gweithio mewn rôl o'r fath. Felly, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

Fel yn achos y rheoliadau cofrestru blaenorol, rydym yn bwriadu osgoi cofrestru dwbl ar gyfer gweithwyr proffesiynol fel nyrsys neu therapyddion galwedigaethol sydd, yn rhinwedd eu proffesiwn rheoleiddiedig, yn cael eu cyflogi gan wasanaethau cartrefi gofal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn eisoes wedi cofrestru ac yn atebol am eu hymddygiad reoleiddwyr gweithlu eraill – e.e. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyngor y Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol.

Fodd bynnag, yr eithriad i'r rheol hon yw pan fo unigolion, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, yn cael eu cyflogi fel rheolwyr y gwasanaethau hyn. Bydd yn ofynnol iddynt gofrestru â GCC yn y rôl reoli hon a meddu ar y cymhwyster rheoli priodol.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:	
Sefydliad (os yw'n berthnasol):	
E-bost / rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:**

**Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]**

**C.1. A yw'r rheoliadau drafft yn ddigon clir a chynhwysfawr i roi gwybod i unigolion yn effeithiol ei bod yn ofynnol iddynt gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithwyr cartref gofal i oedolion, neu weithwyr canolfan breswyl i deuluoedd?**

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Esboniwch:			

**Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]**

**C.2. A yw'r rheoliadau drafft atodedig yn ddigon clir a chynhwysfawr i weithredu cofrestriad gorfodol gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd?**

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Esboniwch:

**Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]**

**C.3. A ddylid darparu unrhyw ganllawiau i helpu darparwyr gofal preswyl i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd i gydymffurfio â'r rheoliad hwn? Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi?**

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Esboniwch:

**Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]**

**C.4. A yw'r canllawiau statudol<sup>3</sup> ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn glir ac yn gryno i helpu cyflogwyr i gydymffurfio â'r rheoliad hwn? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r canllawiau?**

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Esboniwch:

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/canllawiau-ar-gyfer-darparwyr-ac-unigolion-cyfrifol.pdf>

## Cwestiynau eraill

**C. 5. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi dim ond gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, neu weithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, yn eu cael yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- i. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?**
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
- ii. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**C.6. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.**

- i. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa un neu rai a pham/pam ddim?**
  
  
  
  
  
  
  
- ii. Ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?**

**Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

### **Geiriad drafft Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 27(1) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”)(4).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(a) o'r Ddeddf, ac wedi cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(b) o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod copi o'r datganiad gerbron Senedd Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 27(5) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(f) o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

#### **Enwi a chychwyn**

— (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar \*\* Hydref 2022.

#### **Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(5) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

#### **Diwygiad i'r gofyniad ynghylch addasrwydd staff**

Yn rheoliad 35—

yn lle paragraff (2)(f) rhodder—

“(f) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) ac eithrio fel rheolwr er mwyn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal,

(ii) â gwasanaeth llety diogel,

(iii) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu

---

(4) 2016 dccc 2. Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 27(5) a 187(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(5) O.S. 2017/1264 (Cy. 295), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/757 (Cy. 142) ac O.S. 2020/389 (Cy. 87); mae offeryn diwygio arall nad yw'n berthnasol.

(iv) â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,  
fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol (gweler paragraff (8) am ystyr “y dyddiad perthnasol”);”;

yn lle paragraff (2)(g) rhodder—

“(g) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo'r person wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, ac eithrio fel rheolwr, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal,

(ii) â gwasanaeth llety diogel,

(iii) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu

(iv) â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,

fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol (gweler paragraff (8A) am ystyr “y dyddiad perthnasol”).”;

ym mharagraff (8A)(a)—

ym mharagraff (i), hepgorer “a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant”;

ar ôl paragraff (iii) hepgorer “neu”;

ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

“(iv) â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, neu”.